Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Paul
Oakley Place
Grangetown
CF11 7EU

25/11/2025

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad interim:** Tachwedd 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Paul yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'i hadolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Adeiladu ar arfer effeithiol bresennol er mwyn sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn cael cyfleoedd ystyrlon i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol

- Ar draws yr ysgol, mae athrawon wedi defnyddio ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol yn effeithiol i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin a chyson o annibyniaeth mewn dysgu disgyblion.
- Mae'r amgylcheddau dysgu sydd wedi'u cynllunio'n dda yn cynnig cymorth effeithiol i ddisgyblion ddysgu'n annibynnol, er enghraifft mynd at adnoddau yn ôl y gofyn.
- Mae athrawon yn defnyddio dull cytûn yr ysgol, sef swigen yn symud, i ddatblygu medrau meddwl beirniadol a medrau annibynnol disgyblion yn dda. O ganlyniad, ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dysgu sut i weithio'n gynhyrchiol yn annibynnol a chanolbwyntio'n dda ar dasg. Fodd bynnag, er gwaethaf disgwyliadau clir athrawon, mae ychydig iawn o ddisgyblion yn ei chael hi'n anodd canolbwyntio ar eu gwaith, hyd yn oed am gyfnod byr, heb gymorth gan oedolyn.
- Ar draws y dosbarthiadau, mae oedolion yn gyffredinol yn arwain ac yn cefnogi disgyblion yn effeithiol. Maent yn rhoi cyfle i ddisgyblion weithio heb ormod o sgaffaldiau, lle bo hynny'n briodol. Mae hyn yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i



Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

ddatblygu eu hannibyniaeth a'u hunanhyder yn dda. Ar ychydig iawn o achlysuron, nid yw oedolion bob amser yn annog disgyblion i feddwl drostynt eu hunain.

- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau gweithio ar y cyd ac yn annibynnol ar dasgau difyr. Mae gan ddisgyblion hŷn, yn arbennig, strategaethau hunangymorth cryf. Er enghraifft, maent yn defnyddio adnoddau digidol ac argraffedig priodol heb anogaeth i wirio eu dealltwriaeth o dermau anghyfarwydd.
- Ym mhob dosbarth, mae disgyblion yn cyfrannu eu syniadau ac yn gwneud awgrymiadau synhwyrol ac ystyriol ynghylch sut gallai eu gwaith ddylanwadu ar y gymuned ehangach. Mae disgyblion hŷn yn gwneud dewisiadau addas ynghylch y ffordd orau i ymchwilio a chyflwyno eu gwaith.

## Codi safonau yn y Gymraeg

- Mae arweinwyr, staff a disgyblion wedi cydweithio â'i gilydd i roi mwy o amlygrwydd i'r Gymraeg. Maent wedi sefydlu diwylliant lle mae disgyblion a staff yn awyddus i ddatblygu eu medrau ac i ddysgu oddi wrth ei gilydd.
- Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o gemau a strategaethau mewn sesiynau byr i ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn weithredol yn eu dysgu ac i'w wneud yn hwyl. Mae hyn yn helpu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ganolbwyntio'n dda a mwynhau dysgu Cymraeg.
- Yn y dosbarthiadau i ddisgyblion iau, mae athrawon yn defnyddio caneuon, rhigymau a symudiadau'n dda i ddatblygu medrau gwrando disgyblion a'u helpu i gofio'r hyn maent yn ei ddysgu.
- Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn modelu'r Gymraeg yn dda. Maent yn siarad yn glir ag ynganiad da, gan ddefnyddio ystod o batrymau a geirfa sy'n cynnig her addas. Mewn ychydig o achosion, lle mae rhediad yr addysgu'n arafu, nid yw disgyblion yn treulio cymaint o amser ag y gallant yn siarad Cymraeg.
- Mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu gwybodaeth a medrau disgyblion yn y Gymraeg yn systematig wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Lle bo'n briodol, maent yn defnyddio dysgu ehangach disgyblion yn fuddiol i ddarparu cyd-destun perthnasol sy'n galluogi disgyblion i gymhwyso eu gwybodaeth ddatblygol yn bwrpasol.
- Mae athrawon yn annog disgyblion i siarad yn gywir ac yn eu cynorthwyo i gywiro neu ymestyn eu Cymraeg llafar yn ddefnyddiol. Mae hyn yn cefnogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i siarad am gyfnod priodol gan ddefnyddio ystod addas o batrymau cyfarwydd yn gywir. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth gadarn o'r iaith maent yn ei defnyddio.

Gellir dod o hyd adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a rhagor o wybodaeth am broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan:
[http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6813343](http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6813343)

Yn gywir

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol